# CYNGOR SIR DDINBYCH
# HYSBYSIAD O GYNYGION
# Abbey Road, Rhuddlan, Dim Aros ar Unrhyw Adeg

## Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif___Rhuddlan 2026.

**RHODDIR RHYBUDD DRWY HYN** bod Cyngor Sir Ddinbych (“y Cyngor”) yn ymarfer ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ac ar ôl ymgynghori gyda Phrif Swyddog yr Heddlu, yn cynnig gwneud y Gorchymyn a enwir uchod, a bydd ei effaith fel y disgrifir yn yr atodlen isod.

Nodir manylion llawn y cynigion yn y Gorchymyn drafft ynghyd â’r cynlluniau atodol a datganiad o'r rhesymau ar gyfer cynnig i wneud y Gorchymyn, i’w gweld ar-lein ar wefan y Cyngor.

Gellir archwilio copi o’r Gorchymyn arfaethedig, a map sy’n dangos y darnau o ffordd y mae’r cynigion yn berthnasol iddynt, a datganiad o resymau’r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn, yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Rhuddlan, Vicarage Lane, Rhuddlan, LL18 2UE.

Gall unrhyw un sy’n dymuno gwrthwynebu’r Gorchymyn arfaethedig wneud hynny drwy gyflwyno ymatebion i holiadur ynglŷn â’r cynigion ar wefan Cyngor Sir Ddinbych (www.sirddinbych.gov.uk/ymgynghoriadau) neu drwy anfon datganiad ysgrifenedig yn gwrthwynebu, yn nodi’r seiliau i’r gwrthwynebiad, at y Pennaeth Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ, erbyn 02/09/2026 fan bellaf. Dylid nodi y gallai cynnwys unrhyw sylwadau y mae’r cyngor yn eu derbyn fod ar gael i'r cyhoedd ei archwilio.

**Atodlen**

Darnau o Ffordd yn Rhuddlan yn Sir Ddinbych

Dim Aros ar Unrhyw Adeg

Mae’r Amrywiad i’r Gorchymyn hwn yn effeithio ar ddarn o Abbey Road yn Rhuddlan.

Dyddiedig 12/08/2026

Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol Pobl, Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, Sir Ddinbych

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.